**LC1357**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

# Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Cymunedol ar gyfer Monitro drwy Loeren) (Cymru) 2006

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer gorfodi yng Nghymru Reoliad y Comisiwn (EC) 2244/2003 (OJ No L333, 20.12.03, p.17) sy'n gosod darpariaethau manwl ynghylch Systemau Monitro Llongau ar sail Lloeren ("Rheoliad y Comisiwn")

## Rheol Sefydlog 11.7

Mae'r pwyntiau a ganlyn wedi'u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7

Yn nhestun Saesneg erthygl 2(2)(d), ymddengys bod yr ymadrodd "(as aforesaid)" yn cyfeirio'n ôl at baragraff (c). Nid yw'r testun Cymraeg cyfatebol yn cyfeirio'n ôl at (c) [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Nid yw'r testun Cymraeg ym mharagraffau 9(1) a 14(1) yn cyfleu'r un ystyr â'r paragraffau Saesneg. Yn benodol, nid yw 9(1) yn cynnwys ymadrodd sy'n cyfateb i "is guilty of an offence". [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Mae'r testun Saesneg yn erthygl 19(c) yn cynnwys croesgyfeiriad at erthygl 17(3)(g). Dylai'r testun Cymraeg cyfatebol gyfeirio at 17(3)(e). [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Yn nhestun Cymraeg erthygl 22, mae'r geiriau "dirymir" a "diddymir" yn cael eu defnyddio i gyfateb i "revoke". "Dirymir" yw'r term a ddefnyddir fel arfer. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

## Sylwadau

Soniwyd wrth y cyfreithiwr drafftio am nifer o wallau teipograffyddol y gellid delio â nhw wrth gyhoeddi.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 10 Hydref 2006